Julie James AC / AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-793
Ein cyf/Our ref JJ/00588/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

7 Mehefin 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Mai yn dilyn ystyried P-05-793 ynghylch darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i bentref Llangenau.

Y cytundeb gyda BT i gyflawni prosiect Cyflymu Cymru oedd i ddarparu cysylltedd ffibr cyflym i 690,000 eiddo ledled Cymru. Nid oedd gan BT gontract i gyrraedd pob safle. Yn yr un modd, nid oedd yr un ardal wedi'i gwarantu i dderbyn mynediad llawn i fand eang cyflym iawn nac wedi cael addewid i gael eu cysylltu yn yr wybodaeth ynghylch dyddiadau yr amserlen gyflwyno, nad oedd yn bendant. Cafodd yr wybodaeth ynghylch cysylltedd ei darparu i swyddogion gan BT gyda'r bwriad o gyflawni hynny, ac roedd yn gywir pan gyflwynwyd yr wybodaeth; nid oedd yr wybodaeth yn fwriadol gamarweiniol.

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y rhesymau pam na chyrhaeddodd BT pob eiddo, a pham bod dyddiadau cysylltu'n amrywio'n fawr ar gyfer safleoedd unigol. Mae'r ffactorau hyn y tu hwnt i reolaeth llywodraeth Cymru ac maent yn cynnwys amrywiol faterion technegol, peirianneg sifil, daearyddol sydd yn eu tro yn cael effaith ar gostau cyflawni neu'r amserlen, ac yn y pen draw yn arwain at eiddo arall yn cael ei gwblhau.

Mae'r paratoadau ar gyfer y cynllun dilynol wedi mynd rhagddynt gyda'r ymarfer tendro yn barhaus ac mae disgwyl iddynt ddod i ben ym mis Mehefin. Rwy'n anelu at gyhoeddi'r cynigwyr llwyddiannus cyn toriad yr haf gyda gwaith yn dechrau cyn gynted â phosib wedi hynny.

Bydd y cynllun sy'n dilyn yn derbyn £80 miliwn o gyllid cyhoeddus a bydd yn ehangu'r band eang cyflym iawn sydd ar gael i'r safleoedd hynny sydd heb eu cynnwys naill ai o dan Cyflymu Cymru neu'r cynlluniau masnachol sy'n cael eu cyflwyno gan gwmnïau telathrebu yn y tair blynedd nesaf. Bydd hefyd yn annog atebion ar gyfer yr ardaloedd hynny sy'n dioddef y cyflymder lawrlwytho isaf ac mewn ardaloedd sydd â chwmpas data symudol 4G is. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael, gan gynnwys yr eiddo a gaiff eu cynnwys, ar ôl dyfarnu contract.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hefyd, rwy'n bwriadu cyflwyno cynllun newydd sy'n cefnogi cymunedau sydd heb eu cyrraedd drwy'r cynllun caffael diweddaraf ond hefyd ble nad yw cymorth talebau yn ymarferol. Ni fydd y dull hwn o weithio yn bendant tan i'r broses gaffael bresennol ddod i ben a'm bod yn glir ble y bydd y cyflenwyr llwyddiannus yn ei gyrraedd.

Mae cymorth ariannol ar gael o hyd i gartrefi a busnesau ledled Cymru er mwyn iddynt gael mynediad at gysylltiad band eang cyflym drwy Gynllun Allwedd Band Eang Cymru a'r Cynllun Talebau Gwibgyswllt.

Mae Cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn cynnig grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) gostau gosod cysylltiadau band eang newydd â chartrefi a busnesau yng Nghymru (nid yw'n cynnwys costau rhentu misol). Mae'n rhaid i gysylltiadau newydd drwy'r cynllun hwn gynnig newid sylweddol mewn cyflymder − o leiaf ddwbl y cyflymder lawrlwytho presennol. Mae swm yr arian a geir yn dibynnu ar gyflymder y cysylltiad newydd.

Mae'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt hefyd ar gael i fusnesau sy'n dymuno gwella eu cysylltiad presennol er mwyn cael gwasanaeth gwibgyswllt (sef 100+Mbps at y cwsmer, 30+Mbps oddi wrth y cwsmer). Mae'r cynllun yn cynnig hyd at £10,000 i ariannu (neu ariannu'n rhannol) gostau gosod cysylltiadau gwibgyswllt newydd, ond nid yw'n cynnwys costau rhentu misol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ddau gynllun drwy ffonio 0300 025 8887 neu drwy anfon e-bost i bandeang@llyw.cymru.

Rwy'n deall ac yn gwerthfawrogi pryderon a rhwystredigaeth y preswylwyr. Hoffwn eich sicrhau ein bod yn gwneud popeth posibl i wneud yn siŵr bod cysylltiad band eang cyflym iawn ar gael i bawb sy'n dymuno hynny.

Yn gywir,

Julie James AC / AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip